Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

| **Polisi Ymgysylltiad Myfyrwyr â Gweithgareddau Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant** | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | Undeb y Myfyrwyr, Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr | | |
| **Awdur** | Marc Caldecott, Rheolwr Cynrychiolaeth a Democratiaeth UMW<br>Emma Williams, Rheolwr Ansawdd | | |
| **Awdurdodwyd Gan:** | Y Bwrdd Academaidd | | |
| **Gweithredwyd Gan:** | PADA, yr holl staff ar draws PW, partneriaid ac Undeb y Myfyrwyr | | |
| **Cyfeirnod y Polisi / Strategaeth / Gweithdrefn:** | POAR1819002 | | |
| **Y Polisi / Strategaeth / Gweithdrefn a Ddisodlir:** | Polisi Ymgysylltiad Myfyrwyr â Gweithgareddau Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant | | |
| **Rhif y Fersiwn:** | 2 | **Pwyllgor Cymeradwyo:** | Y Bwrdd Academaidd |
| **Statws:** | Cymeradwywyd | **Dyddiad Gweithredu:** | Medi 2021 |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | Medi 21 | | |
| **Cyfnod Cymeradwyo:** | 3 Blynedd | **Dyddiad Adolygu:** | Medi 2024 |
| Rwyf wedi gwneud asesiad i sgrinio’r effeithiau ar gydraddoldeb i helpu i ddiogelu yn erbyn gwahaniaethu ac i hyrwyddo cydraddoldeb. | | | ☐ |
| Rwyf wedi ystyried effaith y Polisi ar yr iaith Gymraeg a’r ddarpariaeth Gymraeg o fewn y Brifysgol. | | | ☐ |

# Polisi Ymgysylltiad Myfyrwyr â Gweithgareddau Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant

## Cyd-destun

Bwriedir i'r Polisi a'r Fframwaith Ymgysylltiad Myfyrwyr â Gweithgareddau Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant fod yn gymwys i'r holl fyfyrwyr sy'n astudio am radd ym Mhrifysgol Wrecsam (PW), gan gynnwys y myfyrwyr hynny sy'n astudio ag un o ddarparwyr partner PW yn y DU a thramor, ac ar-lein. Efallai na fydd rhai gweithgareddau ymgysylltu â myfyrwyr ond yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio yng nghampysau PW ei hun, ond bydd cyfleoedd cyfatebol ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio ag un o'i phartneriaid neu ar-lein.

## Rhan 1: Polisi Ymgysylltiad Myfyrwyr â Gweithgareddau Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant

### 1. Cyflwyniad / Pwrpas

**1.1** Mae ymgysylltu â myfyrwyr fel partneriaid yn hanfodol i ethos PW. Mae Gweledigaeth a Strategaeth y Brifysgol hyd 2023 a'r Strategaeth i Gefnogi Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr (SSSLA) yn amlinellu blaenoriaeth PW i *weithio gyda myfyrwyr i ddatblygu agwedd ddiwylliannol sefydlog tuag at ymgysylltu â myfyrwyr*. Barn y Brifysgol yw ein bod yn gweithio yn fwy effeithiol gyda'n myfyrwyr ac mae PW wedi ymrwymo i roi myfyrwyr wrth wraidd yr hyn a wnawn.

**1.2** Mae'r Polisi hwn yn amlinellu sut mae PW yn cefnogi a galluogi myfyrwyr i gael y cyfle i ymgysylltu a chymryd rhan mewn gweithgareddau sicrwydd ansawdd a gwelliant a darparu adborth ar eu profiad dysgu fel myfyrwyr. Mae'r manylion gweithredol wedi eu cynnwys yn Rhan Dau – Fframwaith ar gyfer Ymgysylltiad Myfyrwyr a gaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd i sicrhau gweithredu effeithiol.

**1.3** Cafodd y polisi ei ddatblygu ar y cyd rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, gyda chyfraniad gwerthfawr gan gynrychiolwyr myfyrwyr ar Gyngor y myfyrwyr.

**1.4** Wrth ddatblygu'r polisi hwn, rhoddwyd ystyriaeth i God Ansawdd Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd y DU Cyngor ac Arweiniad ar Ymgysylltu â Myfyrwyr, ac mae PW wedi ymrwymo i:

"*gyfranogiad ystyrlon gan fyfyrwyr mewn prosesau sicrwydd ansawdd a gwelliant, gan helpu i wella eu profiad addysgol yn ogystal â bod o fudd i'r corff ehangach o fyfyrwyr, darparwyr a'r sector.*"

### 2. Cwmpas

**2.1** Bwriedir i'r polisi a'r fframwaith fod yn gymwys i'r holl fyfyrwyr a chaiff ei adolygu'n rheolaidd gan PW, cynrychiolwyr myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr. Mae'r Polisi yn gymwys beth bynnag y bo lefel a dull yr astudio. Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig; myfyrwyr a addysgir a rhai ymchwil; myfyrwyr llawn amser a rhan-amser, gan gynnwys y rheiny sy'n cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus sy'n ennill credyd; a myfyrwyr wedi eu lleoli ar y campws, mewn gwaith ac sy'n dysgu o bell. Mae'n cynnwys myfyrwyr y DU, rhai Ewropeaidd a rhyngwladol, beth bynnag y bo'u dull cyllido.

## 3. Diffiniad o Ymgysylltiad Myfyrwyr

**3.1** Mae PW yn diffinio ymgysylltiad myfyrwyr fel y broses o gymryd camau bwriadol a chadarnhaol i rymuso a chynnwys yr holl fyfyrwyr, mewn partneriaeth â staff a'i gilydd, i lunio eu profiad dysgu fel myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys yn unigol (e.e. trwy arolygon) ac ar y cyd (e.e. trwy grwpiau ffocws myfyrwyr) a chaiff ei ategu gan ymrwymiad i sicrhau bod pob myfyriwr, beth bynnag yw ei gefndir neu leoliad, yn cael cyfle ystyrlon i gyfrannu gyda'r pwrpas o sicrhau a gwella profiad dysgu'r myfyriwr ar gyfer carfannau presennol a rhai'r dyfodol.

**3.2** Mae persbectif a llais myfyrwyr yn hollbwysig i ansawdd addysg uwch, gan amlygu ymarfer da a meysydd lle gellir gwneud gwelliannau er budd pawb. Mae'r Brifysgol yn ystyried mai Undeb y Myfyrwyr yw llais cyfunol y myfyrwyr beth bynnag yw'r lleoliad astudio.

**3.3** Mae gan fyfyrwyr sy'n astudio yng nghampysau PW system o diwtoriaid personol (gyda system gyfatebol ar gyfer myfyrwyr ar-lein) ynghyd â'r agweddau anffurfiol a ffurfiol o gynrychiolaeth myfyrwyr, ochr yn ochr ag ymagwedd gefnogol at ddysgu ac addysgu. Hyrwyddir diwylliant lle mae croeso i farn myfyrwyr ar bob lefel: modiwl, rhaglen, cyfadran a phrifysgol. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gyfathrebu pryd a sut mae eu hadborth wedi cael ei weithredu i fyfyrwyr, ac os nad yw newid yn bosibl, y rhesymau pam.

**3.4** Mae gan fyfyrwyr sy'n astudio gyda darparwyr partner hefyd systemau yn eu lle i ddarparu agweddau anffurfiol a ffurfiol ar gynrychiolaeth myfyrwyr i hyrwyddo diwylliant lle mae croeso i farn myfyrwyr ar bob lefel. Mae darparwyr partner wedi ymrwymo i gyfathrebu pryd a sut mae eu hadborth wedi cael ei weithredu i fyfyrwyr, ac os nad yw newid yn bosibl, y rhesymau pam.

## 4. Cyfleoedd o ran Ymgysylltiad Myfyrwyr

**4.1** Mae llawer o ffyrdd y gall myfyrwyr rannu barn, adborth, syniadau a bod yn rhan o wneud penderfyniadau i lywio sicrwydd ansawdd a gwelliant profiad addysgol myfyrwyr. Mae'r rhestr isod yn amlinellu rhai enghreifftiau o'r cyfleoedd i fyfyrwyr gymryd rhan ar sail unigol ac ar y cyd:

- Sefyll am enwebiad fel cynrychiolydd cwrs neu Gyfadran
- Cymryd rhan fel cynrychiolydd myfyrwyr ar bwyllgorau Prifysgol
- Sefyll am enwebiad yn etholiadau Undeb y Myfyrwyr i fod yn swyddog
- Cymryd rhan mewn mecanweithiau adborth fel arolygon mewnol ac allanol
- Cymryd rhan mewn grwpiau ffocws ar faterion penodol
- Mynychu Fforymau Llais Myfyrwyr i rannu adborth, barn a syniadau
- Cymryd rhan mewn archwiliadau ac arolygiadau sefydliadol
- Rhannu adborth a syniadau trwy system adborth ar-lein ddienw
- Cymryd rhan mewn adolygiadau rheolaidd pan mae rhaglenni astudio yn cael eu hadolygu
- Cymryd rhan mewn panelau dilysu pan mae rhaglenni astudio newydd yn cael eu datblygu
- Siarad yn anffurfiol gyda darlithwyr, tiwtoriaid personol, cynrychiolwyr myfyrwyr, Swyddogion Undeb Myfyrwyr a staff cefnogi proffesiynol

## 5. Buddion Ymgysylltu o ran Myfyrwyr a PW

**5.1** Mae ymgysylltiad myfyrwyr yn bwysig i ddatblygu ansawdd dysgu, addysgu a'r amgylchedd cefnogi yn barhaus, gan amlygu meysydd o arferion da a lle gellir gwneud gwelliannau.

**Buddion i Fyfyrwyr**

- Galluogi myfyrwyr i lunio, gwella a dyrchafu'r profiad dysgu, addysgu ac ar gyfer myfyrwyr yn gyffredinol, o ran myfyrwyr presennol a'r rheiny a fydd yn astudio yn y dyfodol.
- Myfyrwyr yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy allweddol (fel ymgysylltu â syniadau cymhleth, cyfathrebu llafar, gwneud penderfyniadau a gweithio mewn timau), gwella eu CV a chynyddu eu sgiliau o ran cyflogadwyedd.
- Myfyrwyr wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau'r Brifysgol, yn dylanwadu ar newidiadau a gwelliannau.
- Galluogi myfyrwyr i fod yn bartneriaid yn eu haddysg.
- Gall cymryd rhan gyfrannu at fodiwl eiriolaeth – 20 credyd ychwanegol.

**Buddion i'r Brifysgol**

- Mae persbectif myfyrwyr yn hanfodol i adnabod beth sy'n gweithio'n dda a meysydd y gellir eu gwella.
- Sicrhau bod myfyrwyr wrth wraidd unrhyw broses gwneud penderfyniadau.
- Gwella perthnasedd, strwythur a darpariaeth rhaglenni PW a gwella'r cyfleoedd dysgu.
- Staff a myfyrwyr yn gweithio mewn partneriaeth i greu datrysiadau, gan greu cymuned o weithio mewn partneriaeth.

**5.2** Wrth geisio barnau myfyrwyr, nod Undeb Myfyrwyr Wrecsam (UMW) a'r Brifysgol yw bod yn hygyrch, yn gefnogol, yn arloesol ac yn uchelgeisiol.

## 6. Hyfforddiant a Chefnogaeth

**6.1** Caiff hyfforddiant i staff ynglŷn â phrosesau ymgysylltu â myfyrwyr ei ddarparu ar y cyd rhwng PW ac Undeb y Myfyrwyr. Mae hyfforddiant a chefnogaeth yn cael eu cynnig trwy gydol y flwyddyn academaidd trwy nifer o ffyrdd, er enghraifft:

- **Llawlyfr Cynrychiolydd Cwrs**: Mae gan Undeb y Myfyrwyr lawlyfr penodol gyda chyfarwyddyd ar y System Gynrychioli Cwrs ac mae'n darparu hyfforddiant ar gyfer y rôl, gan gynnwys hyfforddiant ar-lein.
- **Cynhadledd Flynyddol i Gynrychiolwyr Cyrsiau**: Fe'i darperir gan Undeb y Myfyrwyr ar y System Gynrychioli Cwrs, systemau adborth ar-lein, Fforymau Llais Myfyrwyr (FfLIM) a mentrau newydd eraill.
- **Hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion**: Fe'i darperir gan y Tîm Gweinyddu Myfyrwyr sy'n cynnal cofnod canolog o bob aelod staff sydd wedi'i hyfforddi fel cadeirydd FfLIM.
- **Hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr sy'n adolygwyr ar baneli dilysu:** Fe'i darperir gan y Tîm Ansawdd.
- **Hyfforddiant i gynrychiolwyr myfyrwyr ar bwyllgorau:** Fe'i darperir gan Undeb y Myfyrwyr ac ysgrifenyddion pwyllgorau.

## 7. Cydnabod Cyfraniad Myfyrwyr

**7.1** Mae PW ac Undeb y Myfyrwyr wedi ymrwymo i gydnabod gwerth ymgysylltu â myfyrwyr a sicrhau bod myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwobrwyo am eu hymrwymiad.

Mae sawl modd o gydnabod myfyrwyr am eu cyfraniadau, fel cwblhau'r Modiwl Eiriolaeth, derbyn Gwobr Flynyddol Undeb y Myfyrwyr, a thalu treuliau am gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Brifysgol, e.e. mynychu Byrddau Cyfadrannau a digwyddiadau dilysu.

**Diwedd y polisi**

## Rhan Dau: Y Fframwaith ar gyfer Ymgysylltiad Myfyrwyr

Penderfynodd y Cyngor Myfyrwyr ar y model a amlinellir isod sy'n nodi'r cyfleoedd i fyfyrwyr gyfranogi a chyfrannu barnau, adborth ynghyd â llywio'r dysgu, yr addysgu a phrofiad myfyrwyr ar lefel modiwl, rhaglen, cyfadran a Phrifysgol.

### Lefel Modiwl

**Yr Arolwg Arfarnu Modiwl gan Fyfyrwyr (AMF)**

Mae gan bob myfyriwr gyfle i fwydo yn ôl yn ddienw ar lefel modiwl wrth gwblhau holiadur arfarnu modiwl byr (AMF). Mae arolygon AMF yn cael eu cwblhau ar-lein ac maent wedi'u cynllunio i gael eu cwblhau ar ddechrau modiwl ac eto ar ddiwedd modiwl. Mae'r arolwg yn gofyn cwestiynau am y modd y caiff y modiwl ei addysgu a'i asesu, ynghyd â'r adnoddau a'r profiad dysgu cyffredinol. Mae hyn yn adborth gwerthfawr gan ei fod yn caniatáu i dimau academaidd allu gwirio dealltwriaeth myfyrwyr o'r amserlen ddarparu a meini prawf asesu. Unwaith y cwblheir yr arolwg, mae gan y tîm academaidd ddadansoddiad ar unwaith – *yn ddienw*. Wedi i'r canlyniadau gael eu derbyn, mae timau cwrs yn agor yr AMF ar-lein gyda'r myfyrwyr ac yn trafod yr adborth ac unrhyw faterion cyffredin.

**Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth?**

Mae Deoniaid Cyswllt Cyfadrannau yn monitro'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn AMF ac mae Arweinyddion Rhaglen yn adrodd ar ganlyniad yr arolygon AMF fel rhan o'u hadroddiadau blynyddol o ran monitro rhaglenni. Mae'r adolygiadau blynyddol hyn yn adolygu beth sydd wedi gweithio'n dda ar y rhaglen a pha gamau y gellir eu cymryd i ddatrys unrhyw faterion cyffredin sy'n peri anfodlonrwydd. Caiff yr adborth ei ystyried wedyn mewn Byrddau Cyfadran fel y gellir trafod unrhyw newidiadau angenrheidiol a bod Deon y Gyfadran yn ymwybodol ohonynt.

### Lefel Rhaglen

**Teclyn Adborth Ar-lein**[1]

Cafodd teclyn adborth ar-lein i fyfyrwyr a chynrychiolwyr cwrs ei ddatblygu gan Undeb y Myfyrwyr. Mae'r teclyn yn cipio adborth sy'n cael ei anfon ar unwaith at yr unigolion / adrannau perthnasol. Dylai'r holl staff annog myfyrwyr i ddefnyddio'r teclyn hwn er mwyn adnabod materion fel y maent yn codi. *Gall myfyrwyr ddefnyddio'r teclyn adborth ar-lein hwn yn ddienw neu gallant roi manylion cyswllt i dderbyn ymateb.*

**Adborth ar Lefel Rhaglen** *(e.e. profiad o ran modiwlau, addysgu, asesiadau, adborth, cyflwyniad i raglen, trefnu a rheoli rhaglen, canlyniadau NSS, tiwtora personol ac ati)*
Os yw myfyriwr yn defnyddio'r teclyn adborth ar-lein i roi adborth ynglŷn â'u rhaglen, mae hyn yn cael ei anfon yn uniongyrchol at Gynrychiolydd y Cwrs er mwyn i'r rhaglen honno gael ei chodi a'i thrafod trwy'r Fforwm Llais Myfyrwyr (FfLlM). Hefyd, gall Cynrychiolwyr Cwrs ddefnyddio'r teclyn hwn wrth gysylltu â myfyrwyr fel ffordd o gofnodi adborth. Os nad yw cynrychiolwyr cyrsiau'n gallu mynychu FfLlM, bydd Undeb y Myfyrwyr yn cyflwyno'r adborth,

**Adborth Gweithredol** (*e.e. TG, Cefnogaeth o ran Sgiliau Astudio, Arlwyo, y Llyfrgell, y Campws ac Ystadau, y Ganolfan Chwaraeon ac ati)*
Bwriedir i'r teclyn adborth ar-lein gadw adborth am faterion gweithredol. O ran materion gweithredol sy'n cael eu codi mewn Fforymau Llais Myfyrwyr, anogir staff i ofyn i fyfyrwyr ddefnyddio'r teclyn adborth ar-lein er mwyn derbyn ymateb uniongyrchol. Trwy'r teclyn adborth ar-lein, anogir myfyrwyr i gysylltu ag Undeb y Myfyrwyr os nad ydynt yn derbyn ymateb neu nad ydynt yn hapus â'u hymateb.

---

[1] Mae hyn yn berthnasol i fyfyrwyr ar gampysau PW yn unig. FfLlMau fydd y mecanwaith i fyfyrwyr ar gyrsiau gyda darparwyr partner.

Mae adborth yn ymddangos ym mhrosesau monitro ac arfarnu adrannau gweithredol. Mae newidiadau o ganlyniad uniongyrchol i'r adborth hwn yn ymddangos ar agendâu FfLIM.

**System Gynrychioli Cwrs**

Mae'r system gynrychioli cwrs, a ddatblygwyd gan Undeb Myfyrwyr Wrecsam mewn partneriaeth â PW, yn sicrhau bod pob myfyriwr yn cael ei gynrychioli a/neu'n cael y cyfle i adrodd yn ôl ar lefel rhaglen. Mae cynrychiolwyr cwrs yn chwarae rôl allweddol mewn casglu barn myfyrwyr sy'n gallu dylanwadu ar welliannau ar lefel rhaglen a Phrifysgol ac yn cael eu cefnogi gan hyfforddiant. O ran cynrychiolwyr cyrsiau a leolir gyda darparwyr partner, darperir hyfforddiant ar-lein.

Mae nifer y cynrychiolwyr cwrs a etholir yn amrywio gan ddibynnu ar faint y garfan. Mae'n rhaid i'r penderfyniad o ran faint o gynrychiolwyr cwrs y dylid eu hethol gael ei wneud gan gorff y myfyrwyr.

Ethol Cynrychiolwyr Cwrs

- Mae'n rhaid i gynrychiolwyr cwrs gael eu hethol yn ddemocrataidd gan fyfyrwyr ac ni ddylid eu dewis gan aelodau staff.
- Bydd UMW yn hwyluso etholiadau.
- Ar ôl ethol cynrychiolwyr cwrs, dylid anfon eu manylion cyswllt at coursereps@glyndwr.ac.uk cyn neu ar y dyddiad a bennir UMW.
- Bydd myfyrwyr sy'n dychwelyd yn cael y cyfle i ethol eu cynrychiolydd cwrs ar gyfer y flwyddyn ganlynol ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Eto, dylid anfon manylion cyswllt y cynrychiolwyr hynny at coursereps@glyndwr.ac.uk cyn neu ar y dyddiad a bennir gan UMW.
- Mae'n rhaid i Arweinyddion Rhaglen sicrhau bod manylion y cynrychiolydd cwrs etholedig yn cael eu dangos ar dudalen Moodle y cwrs.

Am ragor o wybodaeth am y platfform adborth ar-lein, y system cynrychiolwyr cwrs a FfLIMau, cysylltwch â Chydlynydd Llais Myfyrwyr UMW yn: katie.taffinder@glyndwr.ac.uk

**Hyfforddiant a Chefnogaeth i Gynrychiolwyr Cwrs**

Mae Undeb y Myfyrwyr yn rheoli bas data cynrychiolwyr cwrs ac yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant i gynrychiolwyr cwrs. Cynhelir nifer o sesiynau hyfforddi ar draws holl gampysau PWG. Mae pwyslais yn cael ei roi ar gynrychiolwyr cwrs yn mynychu sesiynau yn bersonol, fodd bynnag mae cyfle i gynrychiolwyr gwblhau hyfforddiant ar-lein. Mae'r manylion ynglŷn â hyfforddiant ar-lein ar gael ar wefan UMW. Hefyd, mae cyfle i gynrychiolwyr cwrs a leolir yng nghampysau PWG dderbyn hyfforddiant ychwanegol yng Nghynhadledd flynyddol Cynrychiolwyr Cwrs UMW. Yn ystod y flwyddyn, darperir cefnogaeth ar gyfer pob cynrychiolydd cwrs gan UMW ac Arweinyddion Rhaglen.

Cynigir hyfforddiant ychwanegol i gynrychiolwyr cwrs a leolir yng nghampysau PW trwy ddarparu modiwl 20 credyd ychwanegol mewn Eiriolaeth. Mae'r modiwl hwn, sydd wedi ennill gwobrau, yn gwella sgiliau myfyrwyr yn ystod eu hamser yn eu rôl, ac mae'n seiliedig ar system cynrychiolwyr Cwrs PW.

**Cyfrifoldebau o fewn y System Cynrychiolwyr Cwrs**

**Cynrychiolwyr Cwrs**

- Mynychu hyfforddiant cynrychiolwyr cwrs a ddarperir gan UMW, neu ymgymryd â hyfforddiant ar-lein
- Sicrhau cyfathrebu rheolaidd gyda myfyrwyr eraill i gasglu adborth
- Annog myfyrwyr eraill i ddefnyddio'r platfform adborth ar-lein
- Mynychu Fforymau Llais Myfyrwyr (FfLIMau) a rhannu'r adborth a gasglwyd, gan gynnwys adborth ar-lein
- Sicrhau bod y cylch adborth wedi ei gau a bod myfyrwyr yn ymwybodol o unrhyw ganlyniadau o FfLIMau

- Siaradwch gyda staff ynglŷn â beth sy'n gweithio'n dda, beth allai fod angen ei newid a syniadau sy'n ymwneud â'ch cwrs
- Gweithiwch mewn partneriaeth â thîm y rhaglen i greu datrysiadau a rhannu syniadau i wella'r profiad i fyfyrwyr
- Lle'n bosibl, dylid cysylltu â'r Cynrychiolydd Cyfadran a rhoi adborth iddo

**UMW/PW**

- Sicrhau bod etholiadau cynrychiolydd cwrs yn digwydd
- Sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o'r system cynrychiolydd cwrs a phwy yw eu cynrychiolydd/wyr cwrs. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo mecanweithiau eraill ar gyfer adborth, fel y teclyn ar-lein
- Sicrhau bod dyddiadau, amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd FfLlM yn cael eu cyhoeddi ar ddechrau'r flwyddyn academaidd a bod myfyrwyr yn cael eu hysbysu
- Gweithio mewn partneriaeth â chynrychiolwyr cwrs i weithredu ar adborth ac i roi gwybod i fyfyrwyr am unrhyw ganlyniadau o FfLlMau, a sicrhau bod y cylch adborth wedi ei gau

**Fforymau Llais Myfyrwyr (FfLlMau)**

Fel arfer, cynhelir Fforymau Llais Myfyrwyr unwaith pob semester ac maent yn darparu cyfleoedd o ran:

- Myfyrwyr yn rhoi adborth i staff ynglŷn â'u rhaglen a'r profiad cyffredinol o safbwynt y myfyrwyr
- Adolygu'r rhaglen gyfredol/rhaglenni cyfredol i lywio newid a gwelliannau
- Myfyrwyr yn bwydo 'Llais Myfyrwyr' i mewn i brosesau penderfyniadau strategol y brifysgol

**Aelodaeth o FfLlMau**

- Yr holl gynrychiolwyr cwrs sy'n gysylltiedig â'r cwrs
- Arweinyddion Rhaglen a Modiwl sy'n gysylltiedig â'r cwrs
- Gall pob myfyriwr fynychu FfLlMau ac mae'n gyfrifoldeb i Arweinyddion Rhaglen a chynrychiolwyr cwrs gyhoeddi manylion y cyfarfodydd trwy Moodle, neu fecanweithiau eraill yn safleoedd darparu partneriaid
- Gall Deon y Gyfadran a Deoniaid Cyswllt fynychu, neu rolau cyfatebol yn safleoedd darparu partneriaid
- Gwahoddir aelod o Undeb y Myfyrwyr i fynychu i gefnogi cynrychiolwyr cwrs, mae hyn yn gymwys i gyfarfodydd FfLlM a gynhelir yng nghampysau Prifysgol Wrecsam yn unig

Ni chaiff y cyfarfod ei gadeirio gan unrhyw un o dîm y rhaglen ar unrhyw achlysur – mae hyn er mwyn sicrhau annibyniaeth. O ran darparwyr partner, dylid cadeirio'r cyfarfod gan y Cyswllt Academaidd a ddynodir gan PW, naill ai'n bersonol neu o bell.

Dylai FfLlMau gael llinellau adrodd clir a system dryloyw i adnabod aelodau staff perthnasol sy'n gyfrifol am roi unrhyw gamau gweithredu ar waith, ynghyd â sicrhau bod y corff myfyrwyr yn cael gwybod am unrhyw ganlyniadau.

**Adrodd ar Adborth Myfyrwyr o FfLlMau a'i Fonitro**

Mae Undeb y Myfyrwyr yn gyfrifol am nodi unrhyw weithredoedd sydd heb eu cwblhau ac unrhyw faterion a godwyd yn gyffredinol. Caiff y rhain eu hadrodd i'r pwyllgorau perthnasol (Byrddau Cyfadran a'r Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu (PADA), neu o ran myfyrwyr darparwyr partner, y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd (PPA)). Derbynnir adroddiad Llais Myfyrwyr llawn hefyd gan y Bwrdd Academaidd a Bwrdd y Llywodraethwyr.

## Lefel Cyfadran

Ceir cynrychiolaeth o ran myfyrwyr, sy'n ystyried adborth a dderbynnir o safleoedd partner, ar sawl lefel o'r Cyfadrannau Academaidd sy'n cynnwys:

- Cynrychiolaeth myfyrwyr ar Fyrddau Cyfadran (1 Myfyriwr israddedig, 1 Myfyriwr ôl-raddedig a addysgir a chynrychiolydd y Gyfadran)
- Cynrychiolaeth myfyrwyr yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli (Cynrychiolydd Cyfadran)
- Cynrychiolwyr Cwrs

**Cynrychiolydd Cyfadran**
Mae gan bob Cyfadran Academaidd Gynrychiolydd Cyfadran trosfwaol a etholir gan y corff myfyrwyr ac a gefnogir gan Undeb y Myfyrwyr. Mae Cynrychiolydd y Gyfadran yn eistedd ar Gyngor Undeb y Myfyrwyr ac yn ddolen rhwng y Gyfadran ac Undeb y Myfyrwyr. Mae gan Gynrychiolydd y Gyfadran y cyfle i gysylltu â Chynrychiolwyr Cwrs campws Prifysgol Wrecsam trwy'r Gynhadledd flynyddol i Gynrychiolwyr Cwrs a chasglu adborth o ddata adborth ar-lein sydd ar gael iddynt o Undeb y Myfyrwyr. Trafodir unrhyw adborth a roddir mewn Byrddau Cyfadran a chyfarfodydd eraill yr Uwch Dîm Rheoli. Mae gan gynrychiolwyr Cyfadran rôl bwysig mewn casglu barn poblogaeth ehangach y myfyrwyr, gan gynnwys ystyried barnau a dderbynnir gan fyfyrwyr a leolir ar safleoedd partner.

**Byrddau Cyfadran**
Mae Byrddau Cyfadran yn delio'n benodol ag ansawdd academaidd a materion o ran safonau, gyda llinell adrodd i'r Bwrdd Academaidd trwy'r Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu a'r Pwyllgor Partneriaethau Academaidd. Mae gan Fyrddau Cyfadran Gynrychiolwyr Myfyrwyr o fewn eu haelodaeth ac maent yn cyfarfod (o leiaf) tair gwaith y flwyddyn. Dylid gwneud pob ymdrech i osgoi trefnu cyfarfodydd Byrddau Cyfadran yn ystod cyfnod y bwrdd asesu.

Bydd Bwrdd y Gyfadran fel arfer yn trafod materion fel:

- Fforymau Llais Myfyrwyr (FfLlM) a gynhelir ar draws pob safle darparu, gan gynnwys cwblhau unrhyw gamau gweithredu a sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwybod am gamau a gymerir o ganlyniad i'r cyfarfod(ydd) FfLlM
- Datblygiadau o ran y cwricwlwm a'r rhaglen gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth gydweithredol

Mae'n bwysig gwahodd myfyrwyr i gymryd rhan mewn Byrddau Cyfadran, ac i Ddeoniaid Cyfadran sicrhau bod cynrychiolaeth myfyrwyr yn cael ei ddiogelu. Lle y bo'n ymarferol, argymhellir y ceir cynrychiolaeth o blith cymysgedd o fyfyrwyr israddedig, ôl-raddedig a addysgir, yn llawn amser a rhan-amser, gyda dim mwy na 3 neu 4 myfyriwr yn mynychu pob cyfarfod. Mae gan fyfyrwyr sy'n mynychu Byrddau Cyfadran hawl i hawlio lwfans mynychu/treuliau bach ar gyfer pob cyfarfod.

## Lefel Prifysgol

**Undeb Myfyrwyr Wrecsam (UMW)**
Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr i sicrhau bod cynrychiolaeth effeithiol o blith myfyrwyr ar draws y sefydliad ynghyd â'r darparwyr partner. Mae nifer o ffyrdd y gall myfyrwyr rannu adborth a llunio'r ffordd y mae eu Hundeb Myfyrwyr yn gweithredu.

Mae'r Cyngor Myfyrwyr yn Bwyllgor UMW sy'n gosod polisïau'r Undeb ac sy'n dal y swyddogion sabothol (y Llywydd a'r Is-lywydd) yn atebol. Mae'r aelodaeth yn cynnwys swyddogion ymgyrch rhan-amser etholedig. Mae'r swyddogion hyn yn fyfyrwyr ar hyn o bryd

sy'n ymgymryd â'r rôl ar sail wirfoddol. Maent yn trafod a phleidleisio ar bolisïau sy'n llunio gwaith y swyddogion sabothol ar gyfer y flwyddyn academaidd. Mae hyn yn cynnwys pa faterion y dylai'r swyddogion sabothol fod yn eu trafod â'r Brifysgol i wella profiad y myfyrwyr. Gall adrannau Prifysgol fynychu'r Cyngor Myfyrwyr i gasglu adborth ynglŷn â'u gwasanaethau.

Mae swyddogion sabothol ac ymgyrch UMW hefyd yn casglu adborth trwy amryw fecanweithiau sy'n bwydo i mewn i bwyllgorau'r Brifysgol.

**Siarter y Myfyrwyr**
Mae Siarter y Myfyrwyr, a ddatblygwyd ar y cyd gan PW ac Undeb y Myfyrwyr, yn amlinellu'r hyn y gall y Brifysgol a myfyrwyr ei ddisgwyl gan y naill a'r llall fel partneriaid mewn cymuned ddysgu. Caiff y siarter hon ei hadolygu bob blwyddyn.

**Cynrychiolaeth Myfyrwyr ar Bwyllgorau'r Brifysgol**
Mae PW wedi ymrwymo i sicrhau cynrychiolaeth o blith myfyrwyr o fewn aelodaeth pwyllgorau'r Brifysgol. Caiff myfyrwyr eu cynrychioli trwy Swyddogion Sabothol Undeb y Myfyrwyr a chan gynrychiolwyr Cyfadrannau a Chyrsiau ar bob lefel yn ein strwythur pwyllgorau.

Mae enghreifftiau o bwyllgorau y caiff myfyrwyr eu cynrychioli arnynt yn cynnwys:

- Bwrdd y Llywodraethwyr
- Y Bwrdd Academaidd
- Y Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu
- Y Pwyllgor Ymchwil
- Byrddau Cyfadran

Mae'r Brifysgol yn adolygu aelodaeth yn flynyddol ac yn cysylltu ag Undeb y Myfyrwyr i lenwi unrhyw leoedd gweigion ar bwyllgorau'r Brifysgol sydd ar gael i fyfyrwyr.

Mae Undeb y Myfyrwyr yn gweithio i sicrhau y caiff ystod amrywiol o fyfyrwyr eu cynrychioli ar bwyllgorau'r Brifysgol, gan gynnwys rhai israddedig ac ôl-raddedig; llawn amser a rhan-amser. Mae swyddogion sabothol hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad polisïau academaidd trwy aelodaeth o weithgorau a phwyllgorau.

Mewn rhai pwyllgorau, gellir rhannu gwybodaeth bersonol, er enghraifft gwrandawiadau yng nghyswllt camymddwyn academaidd neu wrandawiadau cwynion. Yn yr achosion hyn, cynrychiolir llais myfyrwyr gan swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr, fel Llywydd neu Is-lywydd y Myfyrwyr.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall fod yn heriol weithiau i fyfyrwyr siarad mewn pwyllgorau ffurfiol, yn enwedig os ydynt newydd ddechrau cymryd rhan. Mae'r Brifysgol yn gweithio mewn partneriaeth ag UMW i ddarparu hyfforddiant i fyfyrwyr ar bwyllgorau'r Brifysgol i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi, a'u bod yn effeithiol wrth gyflawni'r rôl. Mae Cydlynydd Llais Myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr yn darparu hyfforddiant parhaus i Gynrychiolwyr Myfyrwyr ac yn gweithredu fel prif bwynt cyswllt.

Mae'n rhaid i'r holl faterion a godir gan gynrychiolwyr myfyrwyr yn y pwyllgor perthnasol gael eu hystyried a'u cofnodi'n briodol. Lle nad oes modd gwireddu unrhyw gam gweithredu, dylid esbonio a chofnodi'r rhesymau.

**Arolygon Allanol**

**[Yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol]**
Gall myfyrwyr cymwys ddarparu adborth trwy nifer o arolygon cenedlaethol cydnabyddedig, ar draws y sefydliad, gan gynnwys yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) sydd ar gyfer israddedigion blwyddyn olaf (ac eithrio partneriaid). Mae'r arolwg AMC yn **annibynnol** o'r Brifysgol ac mae atebion yn aros yn ddienw. Mae'r AMC yn rhoi'r cyfle i roi adborth onest o

ran sut fath o brofiad oedd astudio yn y Brifysgol. Mae'n ffynhonnell ddylanwadol o wybodaeth gyhoeddus am addysg uwch, a gall helpu i lywio dyfodol cyrsiau a'r Brifysgol ar gyfer darpar fyfyrwyr a rhai presennol.

**Arolwg Hynt Graddedigion**
Mae'r arolwg yn holi myfyrwyr cymwys sydd wedi ennill cymhwyster yn ddiweddar yn PW ynglŷn â'r gwaith a / neu astudio ychwanegol y maent yn ei wneud yn fuan ar ôl graddio. Mae'r wybodaeth yn ddefnyddiol i roi gwybod i fyfyrwyr am y cyfleoedd a allai fod ar gael iddynt ac o ran canfod tueddiadau mewn cyflogaeth graddedigion.

Mae'r Brifysgol yn hyrwyddo'r arolygon hyn yn eang, ynghyd â chyfleoedd i gymryd rhan.

**Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth a dderbynnir?**

- Caiff yr adborth ei ddadansoddi ar lefel y Brifysgol gyfan a hefyd ar lefel Cyfadran a Rhaglen ac fe'i hadolygir gan Arweinwyr Rhaglenni wrth baratoi eu hadroddiad monitro blynyddol ar gyfer eu rhaglen.
- Trafodir yr adborth ym Mwrdd y Llywodraethwyr, Bwrdd yr Is-ganghellor, y Bwrdd Academaidd ac yn y Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu. Y nod yw defnyddio'r data i wella profiad dysgu'r myfyrwyr wrth ganfod ymarfer gwych a meysydd i'w datblygu.
- Mae'r data ynglŷn â barn myfyrwyr ac adborth o arolygon cenedlaethol ar gael i ddarpar ymgeiswyr trwy wefan Unistats.

Gellir cynnal arolygon mewnol eraill ar gyfer myfyrwyr hefyd, i gasglu adborth ar faterion penodol/llywio datblygiadau o fewn y Brifysgol.

**Cymryd rhan mewn Archwiliadau ac Arolygu Sefydliadol**
Mae PW wedi ymrwymo i annog a chefnogi myfyrwyr i gymryd rhan mewn adolygiadau allanol a mewnol.

**Adolygiad Gwella Ansawdd (AGA)**
Mae'r Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd (ASA) yn adolygu'r safonau, yr ansawdd, ac wrth gwrs y wybodaeth a gyhoeddir gan **holl** Brifysgolion y DU. Pob chwe blynedd, bydd Prifysgol yn cael ei hadolygu gan yr ASA i sicrhau ei bod yn ateb y disgwyliadau gofynnol, fel yr amlinellir gan God Ansawdd y DU. Mae'r ASA hefyd yn adolygu pa mor dda mae Prifysgolion yn sefydlu cynlluniau i wella'r profiad dysgu yn barhaus (cyfeirir at hyn yn aml fel 'gwelliant'). Bydd UMW yn gweithio gyda'r Brifysgol i adnabod cynrychiolydd arweiniol y myfyrwyr a fydd yn datblygu cyflwyniad ar ran y myfyrwyr i rannu barn ac adborth myfyrwyr. Gofynnir i fyfyrwyr gyfarfod â'r adolygwyr ASA yn bersonol i rannu eu profiad a'u barnau o safbwynt bod yn fyfyrwyr yn PW.

**Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (CPSRh)**
Mae gan lawer o Gyfadrannau gysylltiadau â'r corff proffesiynol a/neu statudol ar gyfer eu maes pwnc, fel y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Gall y cyrff proffesiynol a/neu statudol gymeradwyo, achredu neu gydnabod rhaglenni Prifysgol perthnasol.

Gall CPSRh gymryd rhan mewn arfarnu neu ail-arfarnu rhaglen, neu gallant fynychu i adolygu'r rhaglen yn annibynnol, a gwahoddir myfyrwyr yn aml i rannu eu barn a'u hadborth.

**Myfyrwyr yn Adolygwyr ar Banelau Arfarnu, Adolygiadau Cyfnodol a Phanelau Ailddilysu**
Mae dilysu yn cyfeirio at y **broses graffu y mae pob rhaglen newydd yn mynd trwyddi cyn cael ei chymeradwyo**. Mae hyn yn bwysig i sicrhau bod y safonau academaidd ynghyd ag ansawdd rhaglen newydd yn addas, ac y caiff myfyrwyr y cyfle gorau bosibl i ddysgu. Mae adolygiadau cyfnodol ac ail-ddilysu'n cyfeirio at **adolygu ac ailgynllunio cyrsiau presennol.**

Mae UMW yn mynd ati'n weithredol i recriwtio Adolygwyr sy'n Fyfyrwyr, sy'n aelodau llawn o'r Panel. Os yw'n adolygiad rheolaidd ac yn ailddilysiad, caiff adborth myfyrwyr ei gipio hefyd trwy ganlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol a adolygir i wirio beth sy'n gweithio'n dda, ynghyd â meysydd i'w gwella. Hefyd, bydd grŵp cynrychioladol o fyfyrwyr presennol a graddedigion diweddar yn cyfarfod gyda'r Panel i roi eu hadborth ar y cwrs, mae hyn yn cynnwys digwyddiadau panel a gynhelir yn safleoedd darparu partneriaid. Bydd y Panel yn gofyn cwestiynau am bynciau fel asesu ac adborth er enghraifft.

**Cyfrifoldebau Adolygwyr sy'n Fyfyrwyr**

- Mynychu'r sesiwn hyfforddi a'r digwyddiad dilysu a drefnir gan y Tîm Ansawdd
- Adolygu'r ddogfennaeth cyn y digwyddiad
- Cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y rhaglen sy'n cael ei hadolygu, yn enwedig o ran y profiadau myfyrwyr

Os oes gan fyfyriwr ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn digwyddiadau dilysu, e-bostiwch **quality@glyndwr.ac.uk** am ragor o wybodaeth.

## Crynodeb o Ddulliau Ymgysylltu â Myfyrwyr

| Lefel | Dull | Pwy sy'n cael y cyfle? | Amseru | Pwrpas | Sut mae'n digwydd? | Sut fydd myfyrwyr yn gwybod canlyniad eu hadborth? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Modiwl** | Arfarniad Myfyrwyr o Fodiwlau (AMF) | Pob myfyriwr | • Fel arfer, wythnos 3 o ddarparu'r modiwl<br>• Diwedd y modiwl | Yr arolwg AMF yw'r prif declyn i gael adborth gonest ac adeiladol am effeithiolrwydd profiad dysgu ac addysgu myfyriwr ar lefel modiwl. | Mae'n gwbl ddienw ac yn cael ei gwblhau ar-lein.<br>Wedi'i hwyluso gan arweinydd modiwl mewn partneriaeth â chynrychiolwyr cwrs. | Ar ôl yr AMF cyntaf, mae'r arweinydd modiwl yn trafod yr adborth â myfyrwyr.<br>Ar ôl yr AMF diwedd modiwl, rhoddir crynodeb ysgrifenedig o ymatebion tîm y rhaglen i gynrychiolydd y cwrs.<br>Trafodir AMF hefyd mewn Fforymau Llais Myfyrwyr i sicrhau y caiff gweithredoedd eu cwblhau. |
| **Rhaglen** | Teclyn adborth ar-lein | Myfyrwyr ar gampysau PW | Trwy gydol y flwyddyn, 24/7 | Cipio adborth myfyrwyr ar faterion academaidd a gweithredol. | Gall fod yn ddienw a gellir ei gyflwyno ar-lein. Os yw'r adborth yn ymwneud â materion academaidd, caiff ei anfon at Gynrychiolydd y Cwrs.<br>Anfonir adborth gweithredol at yr adran berthnasol. | Bydd cynrychiolwyr cwrs yn trafod adborth mewn Fforymau Llais Myfyrwyr.<br><br>Bydd adrannau gweithredol yn ymateb yn uniongyrchol i'r myfyriwr (os nad yw'n ddienw). |
| | Cynrychiolwyr Cwrs | Pob myfyriwr | Wedi'i ethol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.<br><br>Cynrychiolwyr Lefel 5 a 6 wedi eu hethol yn Ebrill ar gyfer y flwyddyn academaidd i ddilyn. | Sicrhau bod pob myfyriwr yn cael ei gynrychioli a/neu fod ganddo'r cyfle i roi adborth ar lefel rhaglen. Mae cynrychiolwyr cwrs yn chwarae rôl allweddol mewn casglu barnau myfyrwyr sy'n gallu dylanwadu ar welliannau ar lefel rhaglen a Phrifysgol. | Caiff cynrychiolwyr cwrs eu hethol ar-lein gan eu cymheiriaid. Mae Undeb y Myfyrwyr yn gyfrifol am hyfforddi a chefnogi cynrychiolwyr ac am gadw'r gronfa ddata o gynrychiolwyr etholedig. | Mae cynrychiolwyr cwrs yn ymgynghori â'u carfan, yn ymateb i adborth ar-lein ac yn gweithio mewn partneriaeth ag Arweinyddion Rhaglenni (gan gynnwys y Ddolen Academaidd ar gyfer darpariaeth partneriaid) i roi gwybod i'w carfan am ganlyniadau FfLIM. |
| | Fforymau Llais Myfyrwyr | Pob myfyriwr | O leiaf ddwywaith y flwyddyn | Cyfle i fyfyrwyr roi adborth i dîm y rhaglen am eu rhaglen astudio, eu profiad fel myfyrwyr, ynghyd â helpu i lywio newid cadarnhaol. | Trefnir gan y tîm Gweinyddu Myfyrwyr ar y cyd â phob tîm rhaglen. | Mae cofnodion sy'n cynnwys camau gweithredu ar gael ar-lein. Mae Undeb y Myfyrwyr yn nodi unrhyw gamau gweithredu o FfLIMau sydd heb eu cau, sy'n cael eu hadrodd i bwyllgorau perthnasol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfadran** | Cynrychiolydd Cyfadran | Cynrychiolwyr myfyrwyr gyda phrofiad | Etholir ar ddechrau'r flwyddyn academaidd | Mae Cynrychiolydd y Gyfadran yn eistedd ar Gyngor Undeb y Myfyrwyr a Bwrdd y Gyfadran ac mae'n ddolen rhwng y Gyfadran ac Undeb y Myfyrwyr. Mae Cynrychiolydd y Gyfadran yn cysylltu â Chynrychiolwyr Cwrs ac yn casglu adborth, gan gynnwys data o adborth ar-lein. | Mae cynrychiolwyr cyfadran yn enwebu eu hunain ac fe'u hetholir gan fyfyrwyr (caiff proses yr etholiad ei hwyluso gan Undeb y Myfyrwyr). | Trafodir adborth a roddir mewn Byrddau Cyfadran a chyfarfodydd eraill yr Uwch Dîm Rheoli. Mae gan gynrychiolwyr cyfadran rôl bwysig o ran casglu barnau'r boblogaeth ehangach o fyfyrwyr. |
| **Prifysgol** | Siarter Myfyrwyr | Pob Myfyriwr | Adolygir yn flynyddol | Yn nodi'r hyn y gallai'r Brifysgol a myfyrwyr ei ddisgwyl gan y naill a'r llall fel parnteriaid mewn cymuned ddysgu. | Datblygwyd ar y cyd gan PW ac Undeb y Myfyrwyr. | Amherthnasol |
| | Cynrychiolaeth Myfyrwyr ar Bwyllgorau'r Brifysgol | Llywydd / Dirprwy Lywydd / myfyrwyr / cynrychiolwyr cyfadran / cynrychiolwyr cwrs | Trwy gydol y flwyddyn | Sicrhau y caiff llais myfyrwyr ei gynnwys ar bob lefel o fewn proses benderfyniadau'r Brifysgol i sefydlu'r ethos o ran myfyrwyr fel partneriaid. Mae swyddogion sabothol hefyd yn cyfrannu at ddatblygu polisiau academaidd trwy aelodau o weithgorau a phwyllgorau. | Prosesau ethol / recriwtio<br><br>Mae'r Brifysgol yn gweithio mewn partneriaeth ag UMW i gyflwyno hyfforddiant i fyfyrwyr sydd ar bwyllgorau'r Brifysgol. | Rhoddir adborth yn ystod y cyfarfod a thrwy'r cofnodion. |
| | Yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) | Pob myfyriwr blwyddyn olaf israddedig cymwys | Ionawr – Ebrill | Gall myfyrwyr roi adborth am eu barnau ynglŷn â'u cwrs, gan gynnwys yr hyn yr oedd myfyrwyr yn ei hoffi a phethau y gellir eu gwella. | Cynhelir yr AMC blynyddol yn annibynnol. Mae PW a UMW yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo cyfranogiad myfyrwyr. | Caiff canlyniadau arolygon eu hadolygu a'u rhoi ar waith gan y PADA ac maent yn bwydo i mewn i waith monitro blynyddol y rhaglenni. |
| | Cymryd rhan mewn archwiliadau, arolygon sefydliadol, ymweliadau CPSRh digwyddiadau arfarnu ac adolygiadau rheolaidd. | Pob myfyriwr cymwys | Trwy gydol flwyddyn / yn gyfnodol | Yn ystod adolygiadau mewnol ac allanol, caiff myfyrwyr y cyfle i rannu eu profiadau a'u barnau o safbwynt bod yn fyfyrwyr yn PW. Mae pob digwyddiad dilysu ac adolygiadau cyfnodol yn cynnwys aelod panel sy'n fyfyriwr. | Mae PW yn gweithio â UMW i ganfod myfyrwyr i gymryd rhan.<br><br>Mae'r Tîm Ansawdd yn darparu arweiniad a hyfforddiant i aelodau paneli dilysu. | Lle'n bosibl, caiff myfyrwyr wybod am ganlyniadau yn ystod y digwyddiadau. Os yw'r cyfnod amser yn hirach, caiff myfyrwyr eu diweddaru pan fydd canlyniad yr archwiliad / arolwg yn hysbys. |